

## **TYSTIOLAETH DDOGFENNOL YNGHYLCH CYMHWYSTER I WEITHIO YN Y D.U.**

O dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 2006 gofynnir i chi roi tystiolaeth ddogfennol o'ch cymhwyster i weithio yn y DU. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth wreiddiol. Ni dderbynnir copïau. Bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn cadw copi ar eich cofnod unigol i gadarnhau y gall y swydd gychwyn.

### **Pa ddogfennau alla i eu dangos?**

Bydd hyn yn dibynnu ar beth sydd ar gael i chi, ond rhaid i bob dogfen fod yn un wreiddiol. Ni dderbynnir copïau. Mae manylion y dogfennau derbyniol fel a ganlyn:

### **RHESTR A**

**Os cyflwynwch ddogfennau o'r rhestr hon, ni fydd angen mwy o wiriadau yn ystod eich cyflogaeth.**

- 1) Pasbort yn dangos bod y deiliad, neu rywun a enwir yn y pasbort, yn blentyn i'r deiliad, yn ddinesydd Prydeinig, neu'n ddinesydd y Deyrnas Unedig a'r Trefedigaethau sydd â hawl i fyw yn y DU.
- 2) Pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol yn dangos bod y deiliad, neu rywun a enwir yn y pasbort yn blentyn i'r deiliad, yn ddinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- 3) Tystysgrif Gofrestru neu Ddogfen yn Ardystio Preswyliaid Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- 4) Trwydded Preswyliaid Parhaol a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r aelod o deulu dinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.
- 5) Dogfen Fiometrig gyfredol ar gyfer Mewnfudo (Trwydded Preswyliaid Fiometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad, yn nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros am gyfnod amhenodol yn y DU, neu nad oes terfyn amser ar ei (h)arhosiad yn y DU.
- 6) Pasbort cyfredol a arnodwyd i ddangos bod y deiliad bod wedi'i (h)eithrio o reolaethau mewnfudo, y caiff aros am amser amhenodol yn y DU, bod ganddo/ganddi hawl i fyw yn y DU, neu nad oes cyfyngiad amser ar ei (h)arhosiad yn y DU.
- 7) Dogfen gyfredol ar Statws Mewnfudo a roddwyd gan Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag arnodiad yn nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod amhenodol neu nad oes cyfyngiad amser ar ei (h)arhosiad yn y DU, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i (h)enw, a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

- 8) Tystysgrif enedigaeth neu fabwysiadu lawn a roddwyd yn y DU sy'n cynnwys enw o leiaf un o rieni neu rieni mabwysiadol y deiliad, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i (h)enw, a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- 9) Tystysgrif enedigaeth neu fabwysiadu a roddwyd yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Iwerddon, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi Rhif Yswiriant Gwladol yr unigolyn a'i (h)enw, a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.
- 10) Tystysgrif gofrestru neu naturioli'n ddinesydd Prydeinig, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi Rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i (h)enw, a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

## **RHESTR B**

**Grŵp 1. Os cyflwynwch ddogfennau o'r rhestr hon, bydd angen mwy o wiriadau ar y dyddiad dod i ben a nodir yn y dogfennau, fel y gall eich cyflogaeth barhau ar ôl y dyddiad hwnnw.**

- 1) Pasbort a arnodwyd i ddangos bod y deiliad yn cael aros yn y DU ac yn cael gwneud y math o waith dan sylw ar hyn o bryd.
- 2) Dogfen Fiometrig gyfredol ar gyfer Mewnfudo (Trwydded Preswylid Fiometrig) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i'r deiliad, yn nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y DU ar hyn o bryd ac y caiff wneud y gwaith dan sylw.
- 3) Trwydded Preswylid gyfredol (yn cynnwys Trwydded Preswylid Derbyn neu Drwydded Preswylid Deilliadol) a roddwyd gan y Swyddfa Gartref i ddinesydd o'r tu allan i Ardal Economaidd Ewrop sy'r aelod o deulu dinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, neu sydd â hawl preswylid deilliadol.
- 4) Dogfen gyfredol ar Statws Mewnfudo a roddwyd gan Swyddfa Gartref i'r deiliad gydag arnodiad dilys yn nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y Deyrnas Unedig, ac y caiff wneud y math o waith dan sylw, ynghyd â dogfen swyddogol sy'n rhoi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i (h)enw, a roddwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol.

**Grŵp 2. Os cyflwynwch ddogfennau o'r rhestr hon, bydd angen mwy o wiriadau o fewn 6 mis i'w cyflwyno.**

- 1) Tystysgrif gais a roddwyd gan y Swyddfa Gartref yn unol â rheoliad 17(3) neu 18A (2) y Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewrop) 2006, i aelod o deulu dinesydd gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, yn dweud y caiff y

deiliad gymryd swydd sy'n llai na 6 mis oed, pan gyflwynir hi ynghyd â Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol gan Wasanaeth y Swyddfa Gartref ar Wirio Cyflogwyr.

- 2) Cerdyn Cofrestru Cais, a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref, yn datgan bod gan y deiliad hawl i gymryd y swydd dan sylw, ynghyd â Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol o Wasanaeth y Swyddfa Gartref ar Wirio Cyflogwyr.
  - 3) Hysbysiad Gwiriad Cadarnhaol a roddwyd i'r cyflogwr neu'r darpar-gyflogwr gan Wasanaeth y Swyddfa Gartref ar Wirio Cyflogwyr, yn nodi y caiff yr unigolyn dan sylw aros yn y DU ac y caiff wneud y gwaith dan sylw (mewn achosion lle nad oes dogfennau ar gael am fod y cais yn dal heb gael sylw gan y Swyddfa Gartref neu fod apêl i'w chynnal yn erbyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref, fel nad oes modd cyflwyno tystiolaeth o hawl i weithio).